

# Dewch i gymryd rhan a lleisio eich barn



Er mwyn sicrhau bod cynifer o cyfle i breswylwyr ar draws De Cymru rannu eu hadborth, hoffai'r Comisiynydd glywed wrthoch chi!

A fydddech cystal â rhoi ychydig funudau o'ch amser i gwblhau ein arolwg byr a rhoi gwybod i ni am eich barn ar braesept yr heddlu, blaenoriaethau plismona a Heddlu De Cymru.

Mae lincs i'r arolwg ar gael isod:  
**Symudol** (Sganiwch y cod QR gan ddefnyddio eich camera)



**Ar-lein:**  
<https://www.smartsurvey.co.uk/s/praesept/>

Os hoffech ofyn am gopi caled, cysylltwch â ni. Mae ein manylion cyswllt ar gefn y daflen hon



Am ragor o wybodaeth am eich Comisiynydd, dilynwch ni ar:



/commissionersw

[www.southwalescommissioner.org.uk](http://www.southwalescommissioner.org.uk)

Neu cysylltwch â ni ar:

01656 869366

[commissioner@south-wales.pnn.police.uk](mailto:commissioner@south-wales.pnn.police.uk)

Heddlu De Cymru, Yr Adran Safonau Proffesiynol,  
Pencadlys yr Heddlu, Cowbridge Road,  
Pen-y-bont ar Ogwr CF31 3SU

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg.




De Cymru  
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau  
Police and Crime Commissioner  
South Wales

# Eich llais yn dal Eich heddlu lleol i gyfrif

# Ein cyfraniad plismona

**PRAESEPT YR HEDDLU:**  
BETH CHI ANGEN EI WYBOD



# BETH YW PRAESEPT YR HEDDLU

Praesept yr Heddlu yw:



Y swm rydych yn ei dalu fel rhan o'ch treth gyngor a gaiff ei ddefnyddio i dalu am wasanaethau plismona lleol.



Ar eich hysbysiad treth gyngor, caiff ei nodi fel taliad ar gyfer '**Comisiynydd yr heddlu a throseddau**', sy'n gyfrifol am bennu'r gyllideb ar gyfer yr heddlu

Mae'r dreth gyngor yn dâl sy'n seiliedig ar eiddo ar gyfer eiddo domestig sy'n helpu i dalu am wasanaethau yn eich ardal leol. Ewch i [www.gov.uk/council-tax](http://www.gov.uk/council-tax) i gael gwybod pa eiddo band ydych chi.

## PWY YW FY COMISIYNYDD?

Alun Michael yw'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru. Rôl y Comisiynydd yw fod yn llais cyhoedd, i osod y blaenoriaethau ar gyfer yr heddlu a'u cynnal i gyfrif.



Nod y Comisiynydd yw lleihau troseddau a darparu gwasanaeth heddlu effeithiol ac effeithlon yng eich ardal chi. Mae'r Comisiynydd yn cael pob taliadau praesept y dreth gyngor a grantiau a dyrannu cyllideb yr heddlu mewn ymgynghoriad â'r Prif Gwnstabl.

# PAM MAE ANGEN I MI DALU TUAG AT BLISMONA


Mae eich cyfraniad tuag at braesept yr heddlu'n rhan hanfodol o gyllid yr heddlu, a hebddo, ni allwn gynnal gwasanaeth plismona sy'n ymateb i'ch anghenion yn effeithiol.



Llywodraeth ganolog sy'n gyfrifol am benderfynu sut y telir am blismona. Pob blwyddyn, mae'r Swyddfa Gartref yn penderfynu faint o gyllid a ddyrennir i heddluoedd drwy Grant yr Heddlu.



Daw tua 60% o gyllid yr heddlu o Lywodraeth ganolog. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae swm y cyllid a ddyrennir i'r heddlu wedi cael ei leihau draean.



Er mwyn mynd i'r afael â'r gostyngiad hwn mewn cyllid gan y Llywodraeth, mae Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yn gyfrifol am godi digon o arian drwy braesept yr heddlu (y Dreth Gyngor), er mwyn cynnal adnoddau'r heddlu i gadw ein cymunedau'n ddiogel a sicrhau y gallwn barhau i ddiogelu'r bobl sydd fwyaf agored i niwed.

# BETH FYDDAI FY ARIAN YN MYND TUAG ATO?

Mae'r Comisiynydd yn cydnabod bod unrhyw gynnydd yn eich treth gyngor yn gallu bod yn anodd ac felly rhoddir ystyriaeth ddwys i hyn. Bydd unrhyw gynnydd yn y praesept yn helpu i gynnal a gwella'r gwasanaethau heddlu presennol yn Ne Cymru – er enghraifft



Buddsoddi rhagor mewn technoleg i helpu i fynd i'r afael â throseddau difrifol, cyfundrefnol a seiber



Gwelliant parhaus yn ein Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus i ymateb yn effeithiol i 999 a 101 adroddiadau



Amddiffyn dioddefwyr bregus a phobl agored i niwed tra'n cynnal y gallu i ymchwilio ac ymateb

Yr ydym yn gweithio'n galed i ymyrryd yn gynnar ac i atal pethau gwael rhag digwydd, ac yr ydym yn gweithio gyda phartneriaid fel y cyngor lleol, y GIG a sefydliadau gwirfoddol i "wneud mwy gyda llai"-ond mae'n rhaid i ni ymdopi â'r galw cynyddol yn ogystal â materion cymhleth fel troseddau ar-lein a throseddau o'r tu allan i'n hardal yn gwneud y mwyaf o bobl agored i niwed.